**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1039 (Cy. 68)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Cynllun ar gyfer rhoi grantiau tuag at gost gwaith neu gyngor i wella inswleiddiad thermol, neu i leihau neu atal gwastraff ynni fel arall mewn anheddau, yw'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref presennol ("y Cynllun").

Nodir y Cynllun yn Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 1997 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau'n creu Asiantaethau Rhanbarthol i weinyddu'r cynllun, ac yn nodi pwy sy'n gymwys i gael grant. Mae'r prif Reoliadau hefyd yn rhagnodi'r math o waith a'r dibenion y gellir cymeradwyo grantiau ar eu cyfer. Darperir dull ar gyfer cyfrifo grantiau, a nodir yr uchafsymiau a all gael eu rhoi fel grantiau. Mae'r prif Reoliadau yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am grantiau a'u cymeradwyo, ac ar gyfer trefnu gwneud y gwaith neu gyflenwi'r deunyddiau.

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud o dan Adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996). Mae Adran 15(1) yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud, neu drefnu gwneud, grantiau tuag at gost gwaith neu gyngor i wella inswleiddiad thermol neu i leihau neu atal gwastraff ynni fel arall mewn anheddau. Ni all unrhyw grantiau gael eu gwneud o dan Adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 ("Deddf 1990") ac eithrio yn unol â rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1039 (W. 68)

# ENERGY CONSERVATION, WALES

## The Home Energy Efficiency Scheme (Amendment) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The present Home Energy Efficiency Scheme ("the Scheme") is a scheme for providing grants towards the cost of work or advice to improve thermal insulation or otherwise to reduce or prevent energy wastage in dwellings.

The Scheme is set out in the Home Energy Efficiency Scheme Regulations 1997 ("the principal Regulations"). The principal Regulations create Area Agencies to administer the scheme, and set out who is eligible to receive a grant. The principal Regulations also prescribe the type of work and the purposes for which grants may be approved. They provide a method for calculating grants, and set out the maximum sums which may be awarded as grants. The principal Regulations set out the procedures for applying for and approving grants and arranging for works to be carried out or materials to be supplied.

The principal Regulations were made under Section 15(1) of the Social Security Act 1990 (as amended by Section 142 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996). Section 15 (1) provides that the Secretary of State may make or arrange for the making of grants towards the cost of work or advice to improve thermal insulation or otherwise to reduce or prevent energy wastage in dwellings. No grants can be made under Section 15(1) of the Social Security Act 1990 ("the 1990 Act") except in accordance with regulations issued by the Secretary of State.

Mae rheoliad 3 yn newid y cyfyngiad ar y dibenion y gellir dyfarnu grant atynt o dan y prif Reoliadau o "...not more than one.." i "...one or more..." o'r dibenion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu uchafsymiau newydd ar gyfer grantiau o dan y prif Reoliadau.

Regulation 3 changes the limitation on the purposes for which a grant may be awarded under the principal Regulations, from "...not more than one.." to "...one or more..." of the purposes set out in the principal Regulations.

Regulation 4 of these Regulations provides new maximum amounts for grants under the principal Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1039 (Cy. 68)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *5 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**a**), sydd bellach yn arferadwy yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol(**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn,

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 1997(**c**).

**Diwygiadau i Reoliadau 1997**

**3.** Yn Rheoliad 5(1) o Rheoliadau 1997, yn lle "...not more than one...", rhowch "...one or more...".

**4.** Yn Rheoliad 6 o Reoliadau 1997 (Cyfrifo swm y grant) -

(1) Yn lle Rheoliad 6 (1) (a), rhowch -

"(a) in the case of a works application, the amount properly charged for the works or £500, whichever is the lower, and".

(2) Yn lle Rheoliad 6 (1) (b), rhowch -

(a) 1990 (p.27); diwygiwyd adran 15 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

(c) OS 1997/790.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1039 (W. 68)

# ENERGY CONSERVATION, WALES

## The Home Energy Efficiency Scheme (Amendment) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *5th April 2000* |
| *Coming into force* | *6th April 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by Section 15 of the Social Security Act 1990(**a**), which are now exercisable by it in Wales(**b**):

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1)These Regulations may be cited as the Home Energy Efficiency Scheme (Amendment)(Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 6th April 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations,

"the 1997 Regulations" ("*Rheoliadau 1997*") means the Home Energy Efficiency Scheme Regulations 1997(**c**).

**Amendments to the 1997 Regulations**

**3.** In Regulation 5(1) of the 1997 Regulations, for "...not more than one...", substitute "...one or more...".

**4.** In Regulation 6 of the 1997 Regulations (Calculation of amount of grant)-

(1) For Regulation 6 (1) (a), substitute-

"(a) in the case of a works application, the amount properly charged for the works or £500, whichever is the lower, and".

(2) For Regulation 6 (1) (b), substitute-

(a) 1990 (c.27); section 15 was amended by section 142 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 (c.53).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

(c) SI 1997/790.

"(b) in the case of a materials-only application, the amount properly charged for the materials purchased for and used in the works carried out, or £250, whichever is the lower."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**.

5 Ebrill 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 (p.38).

"(b) in the case of a materials-only application, the amount properly charged for the materials purchased for and used in the works carried out, or £250, whichever is the lower."

*S*igned on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**.

5th April 2000

*D. Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 (c.38).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1039 (Cy. 68)

# ARBED YNNI, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1039 (W. 68)

# ENERGY CONSERVATION, WALES

The Home Energy Efficiency Scheme (Amendment) (Wales) Regulations 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090042-1

**£2.00**

WO6086 05/00 ON

9 780110 900421